Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Dydd Iau 23 Tachwedd 2023 am 10am

Drwy Zoom

Aelodau CGGC a oedd yn bresennol	
Befriending Networks	Cadwch Gymru'n Daclus
Centre of Sign, Sight, Sound	Mentrau Iaith Cymru
Sefydliad Cymunedol Cymru	Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd
Cytûn	Popham Kidney Support
Anabledd Cymru	Scouts Cymru
Discovery: Gwirfoddoli Myfyrwyr Abertawe	Stori Cymru
Blynyddoedd Cynnar Cymru	The Wallich
Adfywio Cymunedol Glyncoch Cyf	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
IAG Ltd	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

1. Cyflwyniadau a Chroeso

Gwnaeth y Cadeirydd, Dr Neil Wooding CBE, groesawu aelodau, siaradwyr gwadd, Johnathan Dight o Bevan Buckland a'r Is-lywydd i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cadeirydd Ruth Marks, y Prif Weithredwr a Colin Arnold, Trysorydd.

2. Ymddiheuriadau am fod yn absennol

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan chwe aelod:

- Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- Cyngor ar Bopeth Cylch Conwy

- Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
- GBV Uganda Projects
- Cymdeithas Tai Merthyr Tudful

Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan:

- Lywydd CGGC, Michael Sheen
- Is-lywydd CGGC, Peter Davies
- Ymddiriedolwyr CGGC, Simon Harris, Menai Owen-Jones ac Edward Watts.
- Alison Vickers, Bevan Buckland (archwilwyr CGGC)

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar zoom ddydd Iau 17 Tachwedd 2022

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod gwirioneddol a chywir gan yr aelodaeth.

4. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol CGGC ar gyfer 2022/23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/2023 i'r aelodau, a oedd hefyd yn cynnwys fideo byr wedi'i animeiddio a oedd yn dangos rhai o'r prif uchafbwyntiau o'r Adroddiad Blynyddol.

Prif negeseuon gan y Prif Weithredwr:

- Roedd 2022/2023 yn flwyddyn o newid sylweddol i CGGC.
  - Dechreuwyd ar y gwaith o gyflawni'r strategaeth bum mlynedd
  - Daliwyd ati i gynorthwyo aelodau a phartneriaid gyda'r argyfwng costau byw uwch, ynghyd ag effaith diwedd y cyllid uniongyrchol gan yr UE ar elusennau.
  - Roedd angen i CGGC ailstrwythuro er mwyn cyflawni ein cynlluniau a bod yn gynaliadwy fel elusen. Gwnaethom ffarwelio â bron un rhan o dair o'r tîm staff.
- Canolbwyntiodd nodau strategol CGGC ar gynyddu amrywiaeth a gwydnwch, ein penderfyniad i fod yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant ac ar sicrhau cynaliadwyedd y mudiad.
- Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys nifer o adrannau lle y mae'r naratif wedi'i gymryd drosto gan staff ac ymddiriedolwyr, ac maen nhw'n adrodd nifer o storïau gwych am brosiectau a rhaglenni gwahanol.

DRAFT

  - O fanteisio i'r eithaf ar y dysgu a'r datblygiad y mae CGGC yn eu cynnig i wella sgiliau'r Gymraeg a sicrhau swyddi newydd o fewn y strwythur newydd
  - I weithio gydag aelodau a phartneriaid i gefnogi pobl o Wcráin i gael eu croesawu a'u cynefino yng Nghymru fel Cenedl Noddfa
  - O weithio gyda systemau Gofal ac Iechyd ledled Cymru a sicrhau bod gwerth gwirfoddolwyr a chyfraniad elusennau yn cael eu cydnabod a'u cefnogi
  - I ba mor drylwyr mae'r ymddiriedolwyr yn goruchwylio ein rhaglen newid er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at ein hegwyddorion o gyfiawnder, tegwch, a chynhwysiant.
- Prin iawn yw'r adegau pan mae CGGC yn gweithio ar ei ben ei hun, a hoffem gydnabod ein partneriaeth allweddol â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) ledled Cymru. Gyda'n gilydd fel TSSW – Cefnogi Trydydd Sector Cymru – rydym yn cydweithio i gynorthwyo ein haelodau a'r sector ehangach.
- Ym mis Medi 2023, gwnaethom ffarwelio ag un o gefnogwyr ers tro byd CGGC a theulu CVC pan hunodd Margaret Thorne, CBE, DL. Roedd Margaret wedi bod yn Is-lywydd o CGGC ers 2010. Cafodd dolennau cyswllt a chysylltiadau di-ri Margaret o fewn y sector eu gwneud drwy Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, y rhwydwaith eang Cymru o CVCs a arferai gael eu talfyrru fel WACVC a hefyd Bwrdd CGGC. Creodd Margaret etifeddiaeth o ran rhoi cymorth i elusennau a gwirfoddolwyr a bydd yn cael ei chofio â chariad a diolchgarwch.
- Mae gwahaniaethu yn rhemp, ac mae newid agweddau a systemau yn parhau i fod ar frig agenda CGGC.
- Mae recriwtio a chadw staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr ar elusennau a grwpiau cymunedol yn dod yn fwyfwy heriol.
- Enillydd Bwrsariaeth Walter Dickie am eleni yw Salah Rasool o Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Bydd y bwrsari yn cyllido ymweliad astudio i Ganada i Salah i rannu ei ddysgu â phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Mae CGGC wedi cadw'r achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, sy'n blatfform cadarn i ni ddatblygu ein cefnogaeth dros ddatblygiad a llesiant staff.

Cyhoeddi ymddeoliad

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr y bydd yn ymddeol ar ddiwedd Ebrill 2024 ar ôl bron naw mlynedd yn y swydd. Bydd y broses recriwtio yn agor yr wythnos nesaf.

Diolch i'r canlynol:

- Ein holl gyllidwyr, cynghorwyr a phartneriaid
- Ein Llywydd, Michael Sheen a'n Is-lywyddion, Tom Jones OBE a Peter Davies CBE
- Diolch arbennig i bob aelod Bwrdd a Phwyllgor am eich cefnogaeth ac am graffu ar ein gwaith, rydym yn wirioneddol werthfawrogi'r amser rydych yn ei roi mor hael.
- Tîm staff anhygoel CGGC; maen nhw nid yn unig wedi gweithio'n eithriadol o galed, a hynny'n gyson, ond maen nhw hefyd wedi dangos ymroddiad go iawn i hanfod a diben ein hamcanion elusennol a'n rheswm dros fod.

Derbyniodd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol 2022/23.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am ei gwaith anhygoel o galed yn ystod y naw mlynedd ddiwethaf ac ni fydd ei brwdfrydedd na'i hegni yn mynd yn angof. Gwnaeth y Cadeirydd hefyd ddiolch i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r tîm staff am eu gwaith a'u cymorth yn ystod y 12 mis diwethaf.

5. Siaradwr gwadd: Siôn Brynach, Prif Weithredwr, Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru – Adeiladu Pontydd Gobaith

Croesawodd yr aelodau'r siaradwr gwadd, Siôn Brynach. Mae Siôn yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) ac yn garedig iawn, wedi cyfrannu at un o sesiynau CGGC yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Gan gyflwyno'n ddwyieithog, myfyriodd Siôn ar gwrs diweddar yr aeth arno - Adeiladwyr Pontydd - sy'n rhoi persbectif newydd ac yn helpu pobl i weld pethau o'r newydd. Yr hyn a sylweddolodd Siôn yn sgil y cwrs oedd lefel y trallod a gorbryder y teimlai Siôn yn bersonol, ond hefyd y lefel o orbryder sy'n amlwg ac yn helaeth yn ein cymdeithas am nifer o resymau, er enghraifft, yr argyfwng hinsawdd a natur, yr argyfwng costau byw, yr ansefydlogrwydd gwleidyddol ar ôl pleidlais Brexit a'r pryder bod swyddi'n llai diogel nad oeddent yn y gorffennol.

Mae gan y trydydd sector rôl allweddol mewn adeiladu pontydd gobaith yn ein cymdeithas.

Diolchodd Siôn i bawb am bopeth y maen nhw'n ei wneud. "Diolch am fod yn bont i gymdeithas tuag at obaith drwy'r hyn rydych chi'n ei wneud wrth ymateb i anghenion bob dydd."

Diolchodd y Cadeirydd i Siôn am ei araith ddiddorol.

6. Cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2022/2023

Diolchodd y Trysorydd i'r tîm Cyllid am eu gwaith caled a'u cyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn enwedig o ran y pedair her fawr y maen nhw wedi'u hwynebu; ailstrwythuro'r mudiad, adolygu Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, dod â'r cyllid Ewropeaidd i ben yn raddol a dewis a chroesawu rheolwr buddsoddi.

Roedd y Trysorydd hefyd am ddiolch i gyd-ymddiriedolwyr ac aelodau'r pwyllgor Cyllid.

Crynodeb o ganlyniadau gweithredu:

- Gostyngiad mewn incwm Gweithredu, o £38.8 miliwn y llynedd i £34.5 miliwn – £4.5 miliwn o ostyngiad
- Dau brif faes - derbyniodd grantiau ostyngiad o £2.8 miliwn ac yn y flwyddyn flaenorol incwm untro o £1.4 miliwn o werthiant eiddo
- Gostyngiad mewn Costau Gweithredu o £35.5 miliwn y llynedd i £33.2 miliwn –£2.3 miliwn o ostyngiad
- Y prif faes â llai o wariant oedd £2.5 miliwn heb y grantiau a dalwyd allan – llai o gyllid wedi'i dderbyn felly llai wedi'i dalu allan.
- Y canlyniad net yw bod yr Incwm Gweithredu wedi disgyn £2.0 miliwn o'r flwyddyn flaenorol
- Fodd bynnag, petai'r incwm untro o werthu eiddo yn 2022 yn cael ei hepgor, dim ond gostyngiad o £0.6 miliwn fyddai hyn

Incwm grŵp

Gan edrych yn fanylach ar y Cyfanswm Incwm, mae hwn bellach yn cynnwys Incwm Buddsoddi

- Incwm cyfyngedig wedi gostwng o £33.8 miliwn i £31.4 miliwn – gostyngiad o £2.4 miliwn
- Mae'r Incwm Cyfyngedig yn Grantiau a dderbyniwyd gan fwyaf – dyma sy'n gyfrifol am y £2.4 miliwn o ostyngiad
- Grantiau Llywodraeth Cymru wedi gostwng £5.6 miliwn
- Cafodd y gostyngiad hwn ei wrthbwyso gan gynnydd o £2.7 miliwn gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a £0.9 miliwn gan Comic Relief
- Yn ei hanfod, llog banc yw'r Incwm Cyfyngedig Arall ac roedd hyn yn unol â'r flwyddyn flaenorol
- Gwnaeth yr Incwm Anghyfyngedig ostwng o £5.2 miliwn i £3.6 miliwn – £1.6 miliwn o ostyngiad
- Grantiau a dderbyniwyd yw'r rhan fwyaf o'r Incwm Anghyfyngedig yn 2023 – disgynnodd hwn £0.4 miliwn – cysylltiedig â Llywodraeth Cymru

DRAFT

- Yn 2022 cawsom Incwm untro o £1.4 miliwn o werthu eiddo a dyma'r prif reswm dros y gostyngiad o un flwyddyn i'r llall.

Gwariant grŵp

- £32.8 miliwn oedd y gwariant cyfyngedig yn 2022 ac mae hwn wedi gostwng i £30.2 miliwn yn 2023 – £2.6 miliwn o ostyngiad
- Y brif elfen yn y Gwariant Cyfyngedig yw Grantiau a dalwyd allan – aeth hwn o £28.6 miliwn i £26.0 miliwn –£2.6 miliwn o ostyngiad
- Costau staff a chostau gorbenion yw gweddill y gwariant cyfyngedig. Mae'r rhain, yn y bôn, yr un peth â'r flwyddyn ddiwethaf.
- £2.8 miliwn oedd y gwariant anghyfyngedig ac mae hwn wedi cynyddu i £3.0m yn 2023 – £0.2 miliwn o gynnydd.
- Nid oes un peth yn gyrru'r cynnydd mewn costau – mae nifer o bethau'n cynyddu ac yn gostwng ar draws y mudiad.

Yn fyr...

- Cafodd 560 o grantiau eu talu allan – ychydig dros £26.0 miliwn
- Roedd yr arian cyfyngedig wrth gefn o £6.5 miliwn yn cynrychioli arian cynlluniau benthyg ynghyd ag unrhyw ddyledion heb eu casglu ar gyllid a ddyfarnwyd.
- Mae'r bwrdd wedi dynodi £3.1 miliwn o'r arian anghyfyngedig wrth gefn ar gyfer cronfa eiddo wrth gefn ynghyd â chronfeydd dynodedig eraill ar gyfer pontio allan o gynllun pensiwn y Llywodraeth Leol (LGPS), datblygu busnes, cau'r prosiectau Ewropeaidd a chostau i gefnogi datblygiad parhaus CGGC yn sgil y newidiadau mawr y mae'r elusen wedi'u hwynebu'n ddiweddar.
- Mae'r strategaeth ariannol y mae'r ymddiriedolwyr wedi'i dilyn wedi bod yn un bwyllog a gofalus i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor parhaus CGGC a'i gymorth i'r sector.

Diolchodd y Trysorydd i'r archwilwyr, Bevan & Buckland, ac roedd yn falch o adrodd bod CGGC wedi derbyn adroddiad archwilio glân.

Dymunai'r Cadeirydd ddiolch i'r Trysorydd, y Pwyllgor Cyllid a'r tîm cyllid.

Derbyniodd yr aelodau'r datganiad o gyfrifon ar gyfer 2022/23.

7. Siaradwr gwadd, Andrea Cleaver, Prif Weithredwr, Cyngor Ffoaduriaid Cymru - O gosb i obaith. Sut hoffech chi gael eich croesawu?

Croesawodd aelodau'r siaradwr gwadd, Andrea Cleaver, o Gyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC), mudiad sy'n cynorthwyo ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru i adeiladu eu bywydau yma yng Nghymru.

DRAFT

Mae'r WRC yn aelod o'r TSPC ac enillodd wobr Mudiad y Flwyddyn yng Ngwobrau Elusennau Cymru eleni.

Amlygodd Andrea drafferthion menywod yn Afghanistan sy'n cael eu hallgau o fyd addysg, byd gwaith ac o ddewisiadau bob dydd y mae pobl eraill yn eu cymryd yn ganiataol. Mae angen i ni groesawu a chynorthwyo unigolion sydd wedi gorfod gadael eu mamwlad i geisio cysur mewn gwlad wahanol er mwyn dechrau adeiladu bywydau newydd i'w hunain a'u teuluoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i Andrea am ei chyflwyniad, gan ddweud bod ein dyled yn fawr i WRC am y gwaith y maen nhw'n ei wneud a diolchwn iddynt.

8. Cau

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr, Ruth Marks, am ei harweinyddiaeth ac roedd hefyd am ddiolch i'r tîm staff a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr am eu gwaith ffantastig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dymunai'r Cadeirydd ddiolch i'r Ymddiriedolwr a oedd yn ymddeol, Lindsay Cordery-Bruce, Prif Swyddog Gweithredol, The Wallich, a fydd yn camu i lawr heddiw ar ôl wyth mlynedd ar y Bwrdd. Lindsay hefyd oedd hyrwyddwr diogelu Ymddiriedolwyr CGGC a bu'n cadeirio dau banel grantiau. Nodwyd y bydd CGGC yn cynnal yr etholiadau nesaf am Ymddiriedolwyr yn ystod haf 2024.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chaeodd y cyfarfod am 11.05am.

DRAFT